Rhif: **WG23403**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Llywodraeth Cymru

## Dogfen Ymgynghori

# Effeithlonrwydd Ynni – Cais am Dystiolaeth

Gwahoddir sefydliadau ac unigolion sydd â diddordeb i gyfrannu at ddatblygu Strategaeth Effeithlonrwydd Ynni newydd ar gyfer Cymru.

Dyddiad cyhoeddi: **16 Hydref 2014**
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn **8 Ionawr 2015**

## Trosolwg

Diben y cais hwn am dystiolaeth yw cael barn rhanddeiliaid ar weledigaeth bosibl ar gyfer effeithlonrwydd ynni yng Nghymru ac opsiynau ar gyfer y ffordd ymlaen. Felly, mae'r cwestiynau'n rhai agored a chyffredinol yn aml.

## Sut i ymateb

Fe'ch gwahoddir i gwblhau'r holiadur canlynol er mwyn dweud eich dweud am ddyfodol effeithlonrwydd ynni yng Nghymru. Efallai y byddwch am ateb rhai, neu bob un, o'r cwestiynau a ofynnir.

Gall yr holiadur gael ei gwblhau gan unigolyn, grŵp neu sefydliad. Lle'n bosibl, rhowch resymau am eich atebion i'n helpu i ddeall eich barn yn llawn. Gellir cynnwys gwybodaeth, tystiolaeth ac ymchwil ychwanegol gyda'ch ymateb. Cyflwynwch hyn gyda'ch holiadur ar ôl ei gwblhau. Neilltuwch amser i gwblhau'r adran manylion personol ar ddiwedd y ffurflen. Bydd hyn yn ein cynorthwyo i ddadansoddi'r cais am dystiolaeth.

Gellir cwblhau'r holiadur yn electronig neu ar bapur.

Mae'r ddogfen ymgynghori a'r ffurflenni ymateb ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn: www.cymru.gov.uk/ymgynghoriadau

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

**Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**

## Manylion cysylltu

Dylid dychwelyd holiaduron wedi'u cwblhau at:

Effeithlonrwydd Ynni
Yr Is-adran Pobl a'r Amgylchedd
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

ebost: FuelPovertyandEnergyEfficiency@wales.gsi.gov.uk

## Diogelu data

### Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod i ni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn yn eu cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

© Hawlfraint y Goron 2014

## Cynnwys

1.0 Cyflwyniad .... 2
**1.1 Yr angen** .... 3
**1.2 Manteision Lluosog** .... 4
2.0 Y Weledigaeth .... 8
3.0 Gweithredu .... 9
**3.1 Maes gweithredu allweddol 1: Rhwystrau** .... 9
**3.2 Maes gweithredu allweddol 2: Datblygu'r gadwyn gyflenwi** .... 11
**3.3 Maes gweithredu allweddol 3: Sgiliau ac addysg** .... 12
**3.4 Maes gweithredu allweddol 4: Arloesedd** .... 12
**3.5 Maes gweithredu allweddol 5: Cyllid** .... 14
4.0 Y Camau Nesaf .... 15

# 1.0 Cyflwyniad

**Yn yr adran hon rydym yn nodi'r rhesymau dros gyflymu darpariaeth Cymru fwy effeithlon o ran ynni.**

Mae gwella effeithlonrwydd ynni yng Nghymru yn her sylweddol, ond yn gyfle aruthrol.

Rydym yn awyddus i fynd i'r afael â'r her hon a phennu camau gweithredu i'w cymryd. Nid yw'r pŵer i weithredu ar effeithlonrwydd ynni wedi'i ddatganoli'n llawn i Gymru, felly mae'n rôl wedi'i chyfyngu i hyrwyddo effeithlonrwydd ynni. Ar hyn o bryd, mae ein cymorth effeithlonrwydd ynni yn cynnwys Nest ac Arbed, cyngor i fusnesau drwy Fusnes Cymru, cyngor drwy'r gwasanaeth Cymru Effeithlon newydd, benthyciadau sector cyhoeddus drwy Salix a Buddsoddi i Arbed, ymysg eraill. Yn ogystal â hyn, mae gan Gymru fynediad i gamau gweithredu ar gyfer y DU i gyd drwy fentrau fel y Fargen Werdd a'r Rhwymedigaeth Cwmni Ynni. Felly, rydym yn adeiladu ar yr ymdrechion sylweddol hyd yma, er bod y gwaith o reoleiddio effeithlonrwydd ynni yn parhau yn nwylo Llywodraeth y DU. Yn awr, rydym yn cynnig datblygu strategaeth newydd sy'n ystyried nid yn unig rôl Llywodraeth Cymru wrth ddatblygu'r agenda hon ond hefyd rôl sefydliadau, busnesau a deiliaid tai eraill hefyd. Fel cam cyntaf, rydym yn gwneud cais am dystiolaeth.

Bydd effeithlonrwydd ynni'n cyfrannu at:

- leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a helpu i ddarparu ein Strategaeth Newid Hinsawdd;
- lleihau tlodi tanwydd a helpu i ddarparu ein Strategaeth Tlodi Tanwydd
- creu swyddi a chyfleoedd busnes drwy fuddsoddi mewn Twf Gwyrdd drwy gadwyni cyflenwi effeithlonrwydd ynni lleol
- gwella perfformiad ynni yng Nghymru, gan wella ansawdd cyffredinol y stoc adeiladau a lleihau costau ynni;
- adfywio cymunedau yng Nghymru, drwy wella strwythur adeiladau a thrwy greu swyddi a chyfleoedd busnes a fydd yn arwain at gymunedau mwy cydlynol a chynaliadwy;
- darparu polisi ynni ehangach Llywodraeth Cymru, gan ategu dyheadau Ynni Cymru: Newid Carbon Isel;

Mae sicrhau gwell effeithlonrwydd ynni yn rhan bwysig o raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru hefyd, yn enwedig Bil Cenedlaethau'r Dyfodol.

## 1.1 Yr angen


Mae effeithlonrwydd ynni o fudd i aelwydydd a busnesau yng Nghymru, gan arbed arian iddynt drwy leihau risgiau diogelwch ynni a thrwy gefnogi ffyrdd mwy cynaliadwy o fyw. Ar raddfa, dyma'r ymyriad mwyaf cost-effeithiol i gefnogi'r newid i system ynni carbon isel.

### Hierarchaeth Ynni

Mae Ynni Cymru: Newid Carbon Isel yn disgrifio ein huchelgais i wneud y newid hirdymor i system ynni carbon isel. Mae'n cydnabod tair her sylweddol sy'n golygu bod angen newid ar frys: yr angen i liniaru'r newid yn yr hinsawdd, effaith costau ynni cynyddol, a risgiau diogelwch ynni yn y dyfodol. I fynd i'r afael â'r problemau hyn, mae angen cymryd camau gweithredu cydlynol ar bob lefel yng Nghymru, gyda Llywodraeth Cymru yn chwarae ein rhan; mae hefyd yn gofyn am system ynni yn y DU ac Ewrop sy'n fwy cydgysylltiedig. Mae'n rhaid i ni sicrhau'r manteision mwyaf posibl o wario arian cyhoeddus ar ynni.

Dengys yr hierarchaeth ynni (ffigur 1) mai gostwng y galw am ynni ac effeithlonrwydd ynni yw'r mannau cychwyn gorau. Mae camau gweithredu effeithlonrwydd ynni yn gostwng y galw am ynni ac yn ein galluogi i ddefnyddio ynni'n ddoeth. Bydd sicrhau'r arbedion ynni a'r effeithlonrwydd ynni mwyaf posibl yn hanfodol i'r posibilrwydd o gynyddu dibyniaeth ar ffynonellau ynni carbon isel.

Mae gostwng ein galw am ynni a defnyddio ynni'n fwy effeithlon yn y man lle caiff ei ddefnyddio yn golygu bod angen cynhyrchu llai o ynni ac felly mae'n haws bodloni'r galw drwy ddefnyddio ffynonellau ynni carbon isel. Yn ei dro, bydd hyn yn lleihau'r angen i gynhyrchu ynni (trydan a gwres) o danwyddau ffosil, a lleihau ein hallyriadau carbon drwy hynny.




Ffigur 1: Yr Hierarchaeth Ynni

[Reduce energy demand = **Gostwng y galw am ynni**
Use energy efficiently = **Defnyddio ynni'n effeithlon**
Renewable energy generation = **Cynhyrchu ynni adnewyddadwy**
Minimise carbon impact of other energy generation = **Lleihau effaith garbon cynhyrchu mathau eraill o ynni**]

**Diogelwch Ynni**

Mae effeithlonrwydd ynni'n lleihau'r cyfanswm absoliwt o ynni sydd angen ei gynhyrchu, sydd, ochr yn ochr ag ynni carbon isel o'r defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol Cymru, yn gwella diogelwch ynni. Mae hyn yn bwysig i ddefnyddwyr a busnesau sy'n llai tebygol o wynebu toriadau i gyflenwad ynni ac mae gan hyn bwysigrwydd strategol ehangach i allu'r DU gyfan i leihau'r ynni sy'n rhaid ei fewnforio o du hwnt i'w ffiniau.

**Costau ynni**

Mae pris ynni'n effeithio ar allu pobl i wresogi eu cartrefi'n fforddiadwy, ac yn lleihau gallu busnesau yng Nghymru i gystadlu mewn marchnadoedd byd-eang. Mae adeiladau aneffeithlon yn defnyddio mwy o ynni na'r hyn sydd ei angen, sy'n golygu bod yn rhaid i ddefnyddwyr a busnesau dalu am y gwastraff hwn.

Yn y bôn, credwn fod manteision lluosog sylweddol i Gymru o wella effeithlonrwydd ynni. Dyna pam ei bod yn bwysig gweithredu.

**1.2 Manteision Lluosog**

<u>**Newid Hinsawdd**</u>

Bydd lleihau allyriadau o ynni a ddefnyddir mewn cartrefi, busnesau ac adeiladau sector cyhoeddus yn cyfrannu at gyflawni ein Strategaeth Newid Hinsawdd a thargedau lleihau allyriadau cysylltiedig.

Mae allyriadau nwy tŷ gwydr o ddefnydd ynni a thrydan uniongyrchol mewn tai a busnesau yng Nghymru yn cyfrif am oddeutu hanner yr allyriadau sydd wedi'u cynnwys yn nharged Llywodraeth Cymru i leihau allyriadau nwy tŷ gwydr dri y cant y flwyddyn mewn meysydd o gymhwysedd datganoledig. Mae hyrwyddo effeithlonrwydd ynni'n elfen hollbwysig o gyflawni'r targed hwn ac yn cynnwys llawer o'r mesurau lleihau allyriadau nwy tŷ gwydr mwyaf cost-effeithiol.

Mae'r sector preswyl yn gyfrifol am 22% o'r allyriadau sydd wedi'u cwmpasu gan darged 3% Llywodraeth Cymru; dangosodd ostyngiad o 16.5% mewn allyriadau ar gyfer data 2011. Mae angen gweithredu ymhellach os ydym am gyflawni ein targed mwy uchelgeisiol o ostyngiad o 40% mewn allyriadau erbyn 2020.

Mae Adroddiad Cymru o Asesiad Risg Newid Hinsawdd y DU hefyd yn tynnu sylw at nifer o risgiau sy'n gysylltiedig â'r sector amgylchedd adeiledig dros y degawdau nesaf sy'n gysylltiedig ag effeithlonrwydd ynni, gan gynnwys:

- **Gorgynhesu adeiladau –** Mae effeithiau gwres yn yr amgylchedd trefol yn debygol o ddod yn gynyddol bwysig wrth i'r tymheredd godi, gan gynnwys yr amgylchedd mewn adeiladau a'r amgylchedd trefol ehangach.

- **Cynnydd yn y galw am ynni ar gyfer oeri –** Mae'n debygol y byddai galw ychwanegol am ynni yn yr haf ar gyfer oeri, er bod hyn yn debygol o fod yn llai na'r ynni sydd ei angen ar gyfer y galw am wresogi yn y gaeaf erbyn yr 2050au.

## Tlodi tanwydd

Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried bod aelwyd mewn tlodi tanwydd os byddai angen gwario mwy na 10 y cant o'i incwm (gan gynnwys Budd-dal Tai, Cymhorthdal Incwm ar gyfer Llog Morgais neu Fudd-dal y Dreth Gyngor) ar holl ddefnydd tanwydd yr aelwyd er mwyn cynnal gwres boddhaol yn y cartref.

Mae tri ffactor sy'n dylanwadu ar y posibilrwydd y bydd aelwyd mewn tlodi tanwydd: incwm yr aelwyd, prisiau ynni ac effeithlonrwydd ynni'r cartref.

Mae amcangyfrifon tlodi tanwydd ar gyfer 2012 yn dangos bod 386,000 (30%) o'r holl aelwydydd yng Nghymru yn dlawd o ran tanwydd. Mae hyn yn gynnydd o 54,000 o aelwydydd ers 2008, pan amcangyfrifwyd bod 332,000 (26%) o'r holl aelwydydd yng Nghymru yn dlawd o ran tanwydd. Mae'r cynnydd yn nifer yr aelwydydd sy'n dlawd o ran tanwydd ers 2008 wedi deillio o gynnydd sylweddol mewn prisiau ynni yn ystod y cyfnod ynghyd ag incymau sy'n gostwng neu'n aros yn eu hunfan.

Mae gan Lywodraeth Cymru rwymedigaeth statudol i ddileu tlodi tanwydd[1], i'r graddau y bo'n ymarferol resymol, ym mhob aelwyd yng Nghymru erbyn 2018. Pwerau cyfyngedig sydd gennym i fynd i'r afael ag incwm isel a phrisiau ynni, sy'n golygu bod dileu tlodi tanwydd yn her wirioneddol, ond gallwn wneud gwahaniaeth drwy wella effeithlonrwydd ynni cartrefi yng Nghymru ac rydym yn gwneud hyn drwy ein rhaglen effeithlonrwydd ynni.

Mae'n bwysig gwella effeithlonrwydd ynni cartrefi aelwydydd incwm isel, nid yn unig er mwyn lleihau'r defnydd o ynni mewn cartrefi a gostwng biliau ynni, ond oherwydd bod byw mewn cartref oer yn cael effaith negyddol ar iechyd a lles pobl. Rydym yn gwybod y gall cartrefi oer arwain at gynnydd mewn salwch resbiradol a'r risg o drawiad ar y galon a strôc, ynghyd â chyfrannu at fwy o farwolaethau yn y gaeaf. Hefyd, gall poeni am dalu biliau ynni gynyddu lefelau straen a salwch meddwl. Rydym yn gwybod hefyd y bydd rhai pobl yn gwario llai ar fwyd neu eitemau hanfodol eraill er mwyn talu eu biliau ynni,

[1] Cyhoeddwyd targedau statudol ar gyfer dileu tlodi tanwydd yng Nghymru yn 2003, yn nogfen '**Ymrwymiad i Tlodi Tanwydd i Gymru'** Llywodraeth Cymru, fel sy'n ofynnol yn ôl Deddf Cartrefi Cynnes ac Arbed Ynni 2000.

sy'n effeithio ymhellach ar eu hiechyd cyffredinol. Mae hyn oll yn arwain at ganlyniadau iechyd gwaeth ar gyfer aelwydydd incwm isel ac yn cynyddu'r pwysau ar adnoddau iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae effeithiau negyddol ehangach i dlodi tanwydd a byw mewn cartref oer nag iechyd a lles yn unig; gall effeithio hefyd ar gyrhaeddiad addysgol pan nad oes gan blant le distaw a chynnes yn y cartref i astudio, neu at lefelau uwch i absenoldeb oherwydd salwch. Gall gynyddu allgau cymdeithasol pan fo pobl yn amharod i wahodd ffrindiau i'w cartrefi oherwydd ei fod yn oer neu'n damp, ac mae effeithiau ehangach ar yr economi drwy golli mwy o ddyddiau i salwch a llai o incwm gwario gan aelwydydd a fyddai'n cael ei wario yn yr economi leol fel arall.

**<u>Manteision Economaidd – Twf Gwyrdd</u>**

### Arbed arian drwy arbed ynni

Gellir gwneud arbedion economaidd drwy arbed ynni a gall hynny arwain at filiau ynni is. Gellir gwneud arbedion i'r economi yn dibynnu ar y graddau y mae arbedion ariannol yn cael eu bwydo yn ôl iddi ac i ba raddau y mae buddsoddiadau mewn technolegau sy'n arbed ynni yn ysgogi'r economi leol. Mae pennu'r effeithiau drwy'r economi yn fater cymhleth. Hyd y gwyddom, nid oes astudiaeth Ewrop gyfan ar gael sy'n ymchwilio i fanteision macro-economaidd mesurau effeithlonrwydd ynni Ewrop gyfan yn fanwl. Nid oes astudiaeth Cymru gyfan ychwaith.

### Creu swyddi drwy arbed ynni

Yn sgil natur lafurddwys a lleol y mwyafrif o waith effeithlonrwydd ynni, mae modd creu swyddi'n lleol. Bydd swyddi'n cael eu creu ym meysydd gosod a gweithgynhyrchu lleol, ond bydd y sectorau trafnidiaeth, ynni a gwasanaeth yn elwa hefyd. Bydd cyflogaeth uniongyrchol yn cael ei chreu ym maes gweithgynhyrchu cyfarpar a deunyddiau, gan gynnwys deunydd inswleiddio a systemau gwresogi, ynghyd â gosod systemau a rheoli prosiect. Mae archwilio, monitro'r defnydd o ynni, graddio effeithlonrwydd, marchnata ac ymgynghoriaeth i gyd yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth hefyd.

Mae'n anochel y bydd rhai o'r swyddi sy'n cael eu creu i alluogi gwelliannau effeithlonrwydd ynni ac arbedion ynni yn dadleoli swyddi presennol mewn sectorau eraill. Mae pennu union lefel dadleoli swyddi mewn sectorau lle bydd llai o alw am gynnyrch a gwasanaeth, neu mewn geiriau eraill, y swyddi net sy'n cael eu hennill mewn sector newydd, yn dasg gymhleth iawn.

### Mae arbed ynni yn sicrhau gallu cystadleuol Cymru yn yr hirdymor

Gallai dileu'r cysylltiad rhwng twf economaidd a'r defnydd o ynni yn llwyr gyfrannu at gynyddu gallu cystadleuol ac atyniad busnesau Cymru. Rydym am i Gymru ennill mantais drwy gymryd y camau cyntaf a lleihau peryglon mewnforio ac adnoddau.

Bydd twf llwyddiannus y sector effeithlonrwydd ynni yng Nghymru yn arwain at weithlu medrus a hynod arbenigol mewn sawl sector o'n heconomi. Gallai hyn gael effaith gadarnhaol, fwy anuniongyrchol ar ein gallu i gystadlu yn y sectorau gweithgynhyrchu a gwasanaethau, ynghyd ag ym meysydd ymchwil a datblygu.

Mae lleihau'r defnydd o ynni mewn unrhyw ddiwydiant yn gostwng costau gweithredol, felly mae'n gynyddol bwysig wrth gystadlu mewn marchnad fyd-eang yn erbyn gwledydd sydd â chostau ynni (a llafur) cymharol isel o gymharu â rhai Cymru.

Hefyd, mae defnyddwyr yn fwy ymwybodol o effaith amgylcheddol eu hymddygiad. Mae cwmnïau sy'n gallu cynhyrchu cynnyrch carbon isel ac ynni isel fel rhan o'u strategaeth fusnes yn creu mantais gystadleuol ac yn creu gwerth ychwanegol.

Byddai manteision Cymru sy'n defnyddio ynni'n effeithlon yn helaeth ac amrywiol. Byddai nid yn unig yn arwain at arbedion costau mewn busnesau, aelwydydd a'r sector cyhoeddus, ond hefyd yn cynyddu ein gallu i wrthsefyll digwyddiadau economaidd a gwleidyddol annisgwyl, gan sbarduno arloesedd a'r potensial i greu swyddi.

**C1) – Effaith bosibl**

**Oes gennych chi dystiolaeth neu brofiad yr hoffech ei rannu ar effaith bosibl effeithlonrwydd ynni ar arbed arian ac ar gefnogi swyddi a thwf gwyrdd yng Nghymru?**

## 2.0 Y Weledigaeth

**Yn yr adran hon byddwn yn gofyn am eich barn ar ein gweledigaeth arfaethedig ar gyfer effeithlonrwydd ynni yng Nghymru.**

Rydym am sicrhau bod Cymru yn y sefyllfa orau bosibl i fod yn "Wlad sy'n Rhagori" o ran effeithlonrwydd ynni ac yn allforiwr technoleg a gwybodaeth effeithlonrwydd ynni o bwys.

Y weledigaeth arfaethedig ar gyfer 2025:

**Pobl, cymunedau, busnesau a sefydliadau eraill yn cydnabod manteision effeithlonrwydd ynni ac yn gweithredu.**

**Mae gennym y gadwyn gyflenwi sydd ei hangen ledled Cymru i sicrhau gwelliannau effeithlonrwydd ynni mewn adeiladau, cynhyrchion a phrosesau, a bydd y busnesau hynny'n mynd ymlaen i dyfu ac allforio eu harbenigedd a'u gwybodaeth.**

**Mae gennym addysg a sgiliau effeithiol ar waith i gyflawni mewn perthynas â'r her effeithlonrwydd ynni, o godi ymwybyddiaeth mewn ysgolion i weithlu cymwys a medrus a buddsoddi mewn sgiliau lefel uwch i gefnoig ymchwil a datblygu ac arloesedd.**

**Rydym yn cefnogi arloesedd mewn cynhyrchion effeithlonrwydd ynni newydd i gynnig atebion yng Nghymru; a bydd ein busnesau yn elwa ar y cyfleoedd a gyflwynir gan yr her fyd-eang.**

**Mae gennym fecanweithiau cyllid clir, syniad clir o gyfeiriad a fframwaith sefydlog sy'n denu buddsoddwyr a defnyddwyr.**

**C2) – Gweledigaeth**

**Ydych chi'n cytuno â'r weledigaeth? Os nad ydych chi, eglurwch eich rhesymau.**

## 3.0 Gweithredu

**Yn yr adran hon rydym yn gofyn am eich barn ar gamau gweithredu i ddarparu pob elfen o'r Weledigaeth a nodir uchod.**

Rydym wedi nodi pum maes gweithredu allweddol dros dro i sicrhau bod y weledigaeth yn cael ei chyflawni:

- rhwystrau,
- datblygu'r gadwyn gyflenwi,
- addysg a sgiliau,
- arloesedd;
- cyllid.

Nid ydym wedi rhoi'r manylion ar gyfer cyflawni'r dyheadau polisi hyn yn y cyfnod hwn o wneud cais am dystiolaeth hwn. Rydym yn awyddus i glywed eich barn ar y camau gweithredu mwyaf priodol ac effeithiol.

### 3.1 Maes gweithredu allweddol 1: Rhwystrau

### Gweledigaeth:

**Pobl, cymunedau, busnesau a sefydliadau eraill yn cydnabod manteision effeithlonrwydd ynni ac yn gweithredu.**

Rydym yn cydnabod bod effeithlonrwydd ynni yn rhan o weithredu ehangach ar ynni a newid hinsawdd ac mai rhan yn unig o'r ateb yw hyn. Ar lefel aelwyd, busnes neu sefydliad arall, mae'n mynd law yn llaw â gweithredu ar ochr y galw a micro-gynhyrchu. Mewn cymunedau, mae effeithlonrwydd ynni'n gweithio ochr yn ochr â chynhyrchu a rhwydweithiau lleol doethach.

Er bod y dystiolaeth yn awgrymu bod potensial sylweddol ar gyfer buddsoddi cost-effeithiol mewn effeithlonrwydd ynni, nid ydym yn manteisio'n llawn ar y potensial hwn. Mae bodolaeth rhwystrau i effeithlonrwydd ynni'n golygu ein bod yn gweld llai o fuddsoddi ynddo na'r hyn sydd ei angen yn ddelfrydol yng Nghymru. I wireddu ein huchelgais, mae angen i ni fynd i'r afael â'r rhwystrau i effeithlonrwydd ynni.

Mae modd ystyried y rhwystrau hyn mewn sawl ffordd wahanol. Gallant fod yn faterion sy'n ymwneud â marchnad gymharol newydd, darparu gwybodaeth a diffyg hyder ynddi, diffyg cymhellion ariannol neu gymhellion amhriodol, a rhwystrau ymddygiad sy'n golygu nad yw effeithlonrwydd ynni'n cael ei briod le o gymharu â gwariant arall. Mae'r rhwystrau hyn yn gydgysylltiedig yn aml ac yn gweithio gyda'i gilydd i leihau buddsoddi mewn effeithlonrwydd ynni. Ni fyddai dymchwel un rhwystr yn ddigon ar ei ben ei hun i wireddu potensial llawn effeithlonrwydd ynni yng Nghymru.

**C3) – Rhwystrau i ddeiliaid tai a chymunedau**

**Yn eich barn chi beth sy'n rhwystro pobl rhag cydnabod manteision effeithlonrwydd ynni a mynd ati i weithredu? Oes gennych chi unrhyw awgrymiadau ar gyfer gwella a chynyddu nifer yr aelwydydd sy'n manteisio ar effeithlonrwydd ynni? Beth yw'r cryfderau a'r llwyddiannau ar hyn o bryd a sut y gellir eu datblygu ymhellach?**

**C4) – Rhwystrau i fusnesau**

**Yn eich barn chi beth yw'r rhwystrau sy'n atal busnesau rhag cydnabod manteision effeithlonrwydd ynni a mynd ati i weithredu? Oes gennych chi unrhyw awgrymiadau ar gyfer gwella a chynyddu nifer y busnesau sy'n manteisio ar effeithlonrwydd ynni? Beth yw'r cryfderau a'r llwyddiannau ar hyn o bryd a sut y gellir eu datblygu ymhellach?**

**C5) – Rhwystrau i'r sector cyhoeddus**

**Yn eich barn chi beth yw'r rhwystrau i'r sector cyhoeddus gydnabod manteision effeithlonrwydd ynni a mynd ati i weithredu? Oes gennych chi unrhyw awgrymiadau ar gyfer gwella a chynyddu camau gweithredu effeithlonrwydd ynni yn y sector cyhoeddus? Beth yw'r cryfderau a'r llwyddiannau ar hyn o bryd a sut y gellir eu datblygu ymhellach?**

Wrth ymateb i'r cwestiynau hyn, cofiwch ystyried rôl bosibl Llywodraeth Cymru ac eraill.

## 3.2 Maes gweithredu allweddol 2: Datblygu'r gadwyn gyflenwi

### Gweledigaeth:

**Mae'r gadwyn gyflenwi sydd ei hangen arnom gennym ledled Cymru i gyflawni gwelliannau effeithlonrwydd ynni mewn adeiladau, cynhyrchion a phrosesau, a bydd y busnesau hynny'n mynd ymlaen i dyfu ac allforio eu harbenigedd a'u gwybodaeth.**

Mae Cymru'n anghyffredin yn yr ystyr bod ganddi gadwyn gyflenwi effeithlonrwydd ynni, o weithgynhyrchu i osod, o fewn ei ffiniau. Mae mesurau inswleiddio a thechnolegau micro-gynhyrchu'n cael eu gwneud yng Nghymru. Mae gennym sylfaen gadarn o osodwyr mewn sawl rhan o Gymru yr ydym wedi'i helpu i dyfu.

**C6) – Cadwyn Gyflenwi**

**Beth yw cryfderau a gwendidau'r gadwyn gyflenwi a sut allwn ni adeiladu ar y cryfderau a mynd i'r afael â'r gwendidau?**

Wrth ymateb i'r cwestiwn hwn, cofiwch ystyried rôl rhanddeiliaid a busnesau ehangach ynghyd â gweithredu posibl gan Lywodraeth Cymru.

### 3.3 Maes gweithredu allweddol 3: Sgiliau ac addysg

#### Gweledigaeth:

**Mae gennym addysg a sgiliau effeithiol ar waith i fodloni'r her effeithlonrwydd ynni, o godi ymwybyddiaeth mewn ysgolion i weithlu cymwys a medrus a buddsoddi mewn sgiliau lefel uwch i gefnogi ymchwil a datblygu ac arloesedd.**

Cyhoeddwyd Cynllun Gweithredu Sgiliau ar gyfer Cymru ym mis Gorffennaf 2014. Mae'r Cynllun hwn wedi'i ddatblygu i lywio gweithredu yn y dyfodol mewn perthynas â pholisi sgiliau a chyflogaeth ôl-16. Ei nod yw darparu manylion y camau gweithredu sydd i'w cymryd gan Lywodraeth Cymru drwy weithio gyda chyflogwyr, unigolion, undebau llafur a phartneriaid darparu.

Mae'r cynllun yn nodi'r camau gweithredu polisi sy'n ofynnol i ddatblygu system sgiliau cynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Ei nod yw cynorthwyo Cymru i esblygu yn genedl fedrus iawn a chreu'r amodau a fydd yn galluogi busnesau yng Nghymru i dyfu a ffynnu. I gyflawni'r nod hwn, mae'n rhaid i'r llywodraeth, cyflogwyr, darparwyr ac unigolion weithredu'n gyfrifol.

Mae ein rhagolygon hirdymor ar gyfer y system sgiliau yng Nghymru yn canolbwyntio ar:

- Sgiliau ar gyfer swyddi a thwf
- sgiliau sy'n ymateb i anghenion lleol
- sgiliau y mae cyflogwyr yn eu gwerthfawrogi
- sgiliau ar gyfer cyflogaeth

Ein huchelgais yw datblygu system sgiliau yng Nghymru sy'n cefnogi ein gallu i gystadlu yn y dyfodol, ein helpu i esblygu yn gymdeithas fedrus iawn yn ogystal â mynd i'r afael â thlodi, ac sy'n gynaliadwy wrth i adnoddau fynd yn fwy a mwy prin. Bydd ein prif ffocws yn parhau i fod ar gynyddu cynhyrchiant, dymchwel rhwystrau i waith a chefnogi pobl i gyflogaeth gynaliadwy.

Mae'r cynllun llawn ar gael yn:
http://cymru.gov.uk/topics/educationandskills/skillsandtraining/policy-statement-on-skills/skills-implementation-plan/?skip=1&lang=cy

Bydd hyn yn llywio ein camau gweithredu drwy sicrhau bod gennym yr addysg a'r sgiliau angenrheidiol ar waith i gyflawni mewn perthynas â'r her effeithlonrwydd ynni.

**C7) – Sgiliau ac Addysg**

**Pa gyfleoedd a rhwystrau sydd yna o safbwynt sgiliau ac addysg i ddatblygu gweithlu cymwys a medrus ym maes effeithlonrwydd ynni?**

## 3.4 Maes gweithredu allweddol 4: Arloesedd

### Gweledigaeth:

**Rydym yn cefnogi arloesedd mewn cynhyrchion effeithlonrwydd ynni newydd i gynnig atebion yng Nghymru; a bydd ein busnesau yn elwa ar y cyfleoedd a geir yn sgil yr her fyd-eang.**

Mae'r Strategaeth Arloesi Cymru a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn nodi ynni carbon isel a'r amgylchedd fel un o'r pedair her fawr lle gwneir y buddsoddiad mwyaf mewn arloesi. Yn benodol, mae llawer o gyfleoedd i Gymru ym maes ynni lle mae blaenoriaethau o ran byw'n ddoeth, defnyddio adnoddau ynni'n effeithlon ac ynni ar raddfa fawr wedi'u nodi. Yn ogystal â hyn, mae angen i ni annog pob cynulleidfa; aelwydydd, busnesau a chymunedau i ddefnyddio cynhyrchion a gwasanaethau arloesol newydd sydd â'r potensial i weddnewid y ffordd rydym yn defnyddio ynni.

Mae arloesedd ym maes effeithlonrwydd ynni yn cynnig y potensial i:

- alluogi busnesau Cymru i ddatblygu cynhyrchion, technolegau a gwasanaethau newydd i fanteisio ar y cyfleoedd a gynigir gan farchnad effeithlonrwydd ynni fyd-eang ynghyd â'r farchnad yng Nghymru;

- cynyddu gweithredu ac effeithlonrwydd ar ran yr holl gynulleidfaoedd targed yng Nghymru, drwy ddefnyddio'r atebion effeithlonrwydd ynni mwyaf arloesol.

**C8) – Arloesedd**

**Beth yw'r cyfleoedd ar gyfer arloesi i helpu i ddymchwel y rhwystrau i wella ein heffeithlonrwydd ynni yng Nghymru?**

### 3.5 Maes gweithredu allweddol 5: Cyllid

**Gweledigaeth:**

**Mae gennym fecanweithiau cyllid clir, synnwyr o gyfeiriad a fframwaith sefydlog sy'n denu buddsoddwyr a defnyddwyr.**

Mae effeithlonrwydd ynni yng Nghymru'n cael ei gefnogi ar hyn o bryd gan fentrau sy'n targedu cwsmeriaid domestig, busnesau a sefydliadau'r sector cyhoeddus. Mae Llywodraeth Cymru'n cyllido rhywfaint o'r cymorth hwn, megis ein rhaglen effeithlonrwydd ynni, sy'n cynnwys Nest ac Arbed, cyngor i fusnesau drwy Fusnes Cymru, cyngor drwy wasanaeth newydd Cymru Effeithlon, benthyciadau sector cyhoeddus drwy Salix a Buddsoddi i Arbed, ymysg eraill. Yn ogystal â hyn, mae gan Gymru fynediad i gamau gweithredu ar gyfer y DU i gyd drwy fentrau fel y Fargen Werdd a'r Rhwymedigaeth Cwmni Ynni.

Mae Llywodraeth Cymru wedi dangos ymrwymiad i effeithlonrwydd ynni drwy gynnal cyllid mewn cyfnod o doriadau mewn cyllidebau. Mae gan Lywodraeth Cymru rôl i gynyddu lefel gwybodaeth am fecanweithiau cyllid ar gyfer effeithlonrwydd ynni y tu hwnt i gyllid grant pur. Mae angen gwneud defnydd doethach o gronfeydd cyhoeddus ynghyd â chael fframwaith hirdymor, tryloyw a sefydlog. Gall cyllid gael ei ehangu drwy gyd-gyllido Ewropeaidd ac awdurdodau lleol a thrwy ddenu cyllid preifat. Felly, mae'n hanfodol bod marchnad egnïol ar gyfer gwelliannau effeithlonrwydd ynni yn cael ei sefydlu a bod cronfeydd cyhoeddus yn gweithredu fel sbardun ar gyfer cyllid cyfalaf.

**C9) – Cyllid**

**Oes unrhyw fylchau penodol mewn cyllid i gymell mwy i fanteisio ar effeithlonrwydd ynni? Pa fodelau cyllido sy'n gweithio orau i fynd i'r afael â'r anghenion effeithlonrwydd ynni yng Nghymru ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd targed?**

Wrth ymateb i'r cwestiwn hwn, cofiwch ystyried rôl Llywodraeth Cymru ac eraill o ran ariannu buddsoddiad mewn effeithlonrwydd ynni.

## 4.0 Y Camau Nesaf

Rydym yn awyddus i siarad â phobl ac ymgysylltu'n eang wrth baratoi'r strategaeth hon. Bydd yr ymatebion i'r cais am dystiolaeth yn cael eu dadansoddi a'u gwerthuso i helpu i ddatblygu strategaeth effeithlonrwydd ynni ddrafft i ymgynghori arni yng Ngwanwyn 2015. Bydd yr ymatebion yn rhan bwysig o'r sail dystiolaeth ar gyfer effeithlonrwydd ynni yng Nghymru hefyd.

Byddem yn gwerthfawrogi'ch sylwadau cyffredinol ynghyd ag ymatebion i gwestiynau penodol yr ymgynghoriad. Bydd y rhain yn helpu i lywio'r strategaeth derfynol y bwriadwn ei chyhoeddi tua diwedd 2015.

| |
|---|
| **C10) – Cyffredinol**<br><br>**Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael yn benodol â nhw, defnyddiwch y gofod hwn i'w nodi:** |

**Catalog o Gwestiynau**

**C1) – Effaith bosibl.** Oes gennych chi dystiolaeth neu brofiad yr hoffech ei rannu ar effaith bosibl effeithlonrwydd ynni ar arbed arian ac ar gefnogi swyddi a thwf gwyrdd yng Nghymru?

**C2) – Gweledigaeth.** Ydych chi'n cytuno â'r weledigaeth? Os nad ydych chi, eglurwch eich rhesymau.

**C3) – Rhwystrau i ddeiliaid tai a chymunedau.** Yn eich barn chi beth sy'n rhwystro pobl rhag cydnabod manteision effeithlonrwydd ynni a mynd ati i weithredu? Oes gennych chi unrhyw awgrymiadau ar gyfer gwella a chynyddu nifer yr aelwydydd sy'n manteisio ar effeithlonrwydd ynni? Beth yw'r cryfderau a'r llwyddiannau ar hyn o bryd a sut y gellir eu datblygu ymhellach?

**C4) – Rhwystrau i fusnesau.** Yn eich barn chi beth yw'r rhwystrau sy'n atal busnesau rhag cydnabod manteision effeithlonrwydd ynni a mynd ati i weithredu? Oes gennych chi unrhyw awgrymiadau ar gyfer gwella a chynyddu nifer y busnesau sy'n manteisio ar effeithlonrwydd ynni? Beth yw'r cryfderau a'r llwyddiannau ar hyn o bryd a sut y gellir eu datblygu ymhellach?

**C5) – Rhwystrau i'r sector cyhoeddus.** Yn eich barn chi beth yw'r rhwystrau i'r sector cyhoeddus gydnabod manteision effeithlonrwydd ynni a mynd ati i weithredu? Oes gennych chi unrhyw awgrymiadau ar gyfer gwella a chynyddu camau gweithredu effeithlonrwydd ynni yn y sector cyhoeddus? Beth yw'r cryfderau a'r llwyddiannau ar hyn o bryd a sut y gellir eu datblygu ymhellach?

**C6) – Cadwyn Gyflenwi.** Beth yw cryfderau a gwendidau'r gadwyn gyflenwi a sut allwn ni adeiladu ar y cryfderau a mynd i'r afael â'r gwendidau?

**C7) – Sgiliau ac Addysg.** Pa gyfleoedd a rhwystrau sydd yna o safbwynt sgiliau ac addysg i ddatblygu gweithlu cymwys a medrus ym maes effeithlonrwydd ynni?

**C8) – Arloesedd.** Beth yw'r cyfleoedd ar gyfer arloesi i helpu i ddymchwel y rhwystrau i wella ein heffeithlonrwydd ynni yng Nghymru?

**C9) – Cyllid.** Oes unrhyw fylchau penodol mewn cyllid i gymell mwy i fanteisio ar effeithlonrwydd ynni? Pa fodelau cyllido sy'n gweithio orau i fynd i'r afael â'r anghenion effeithlonrwydd ynni yng Nghymru ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd targed?

**C10) – Cyffredinol**. Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael yn benodol â nhw, defnyddiwch y gofod hwn i'w nodi:

**Manylion Personol**

**Er mwyn ein helpu i ddadansoddi, rhowch wybod i ni pwy gwblhaodd y ffurflen ymateb hon.**

*Manylion cyswllt (Dewisol):*

| |
|---|
| **Nodwch os ydych chi dros 18 oed yn unig.** |

| | |
|---|---|
| Mae'r ymateb hwn gan (enw) | |

Ticiwch y bocs nesaf i'r ateb rydych chi am ei ddewis √

**Safbwyntiau pwy yw'r rhain:**

| | |
|---|---|
| **Unigolyn** | |
| **Sefydliad cyhoeddus** | |
| **Trafodaeth Grŵp** | |
| **BBaCh** | |
| **Diwydiant** | |
| **Cymuned** | |
| **Busnes Mawr** | |
| **Arall** | |

**Nodwch deitlau unrhyw wybodaeth, tystiolaeth ac ymchwil ychwanegol rydych chi'n eu cyflwyno gyda'ch ymateb.**